Ysgol Dyffryn Aman

Pennaeth/Headteacher
Mr James Durbridge

Ysgol Dyffryn Aman
Stryd Marged/Margaret Street
Rhydaman/Ammanford
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire
SA18 2NW
Tel: (01269) 592441
ebost/email: admin@dyffrynaman.org

Dydd Gwener 27ain o Fedi 2024

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda.

Bydd y rhan fwyaf ohonoch yn ymwybodol o'r achos llys sydd ar ddod mewn cysylltiad â'r digwyddiad yn yr ysgol ym mis Ebrill eleni.

Disgwylir i'r achos llys ddechrau ddydd Llun, 30 Medi 2024 ac, er na allaf wneud sylw ar fanylion yr achos llys, hoffwn eich sicrhau y bydd hi'n wythnos waith arferol ar gyfer disgyblion a staff Ysgol Dyffryn Aman. Bydd dosbarthiadau'n mynd yn eu blaenau fel arfer ac ni fydd unrhyw darfu ar y gwaith o gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd yn ystod yr achos llys, a allai bara tua phythefnos.

Mae'n debygol y bydd yr achos llys yn denu sylw'r cyfryngau ac efallai y bydd y cyfryngau yn bresennol y tu allan i'r ysgol. Gallaf eich sicrhau y bydd hyn yn cael ei reoli gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol.

Rhaid i mi roi gwybod i chi y bydd y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno yn ystod yr achos llys yn debygol iawn o fod ar gael i'r cyfryngau. Rwyf wedi cael sicrwydd gan yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron y bydd manylion adnabod pob disgybl yn cael eu diogelu, ond nid oes gennyf unrhyw amheuaeth na fydd cyhoeddi'r dystiolaeth a'i rhannu yn gyhoeddus yn peri gofid i lawer ohonom.

Gyda hyn mewn golwg, hoffwn eich atgoffa am y cymorth lles sydd ar gael gan yr ysgol i unrhyw ddisgybl sydd angen ein help. Gall disgyblion sy'n dymuno derbyn cymorth lles gysylltu â'u hathro dosbarth neu aelod o'r tîm bugeiliol. Bydd gwasanaethau cwnsela'r ysgol hefyd ar gael pe bai disgyblion eu hangen. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi cynnwys dolenni a allai fod yn ddefnyddiol i chi i gefnogi disgyblion gartref.

Ysgol Dyffryn Aman

Pennaeth/Headteacher
Mr James Durbridge

Ysgol Dyffryn Aman
Stryd Marged/Margaret Street
Rhydaman/Ammanford
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire
SA18 2NW
Tel: (01269) 592441
ebost/email: admin@dyffrynaman.org

Canllaw i ddeall a rheoli trawma

Canllaw i reoli pryder mewn cyfnod ansicr a heriol

Mae hefyd yn bwysig iawn fy mod yn cynghori pawb bod achos cyfreithiol ar waith, mewn perthynas â'r digwyddiad a'r achos llys, ac yn gofyn i bawb beidio â dyfalu, rhoi sylwadau na rhannu unrhyw luniau neu fideos sy'n ymwneud â'r digwyddiad. Gallai gwneud hynny olygu bod unigolyn yn destun dirmyg llys.

Mae pum mis wedi mynd heibio ers i'n cymuned ysgol gael ei hysgwyd gan y digwyddiad hwn, ond mae teulu Ysgol Dyffryn Aman wedi dangos aeddfedrwydd a charedigrwydd anhygoel wrth gefnogi ei gilydd. Rwy'n hynod falch ohonoch chi i gyd.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ddiwedd yr achos llys ond yn y cyfamser, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion gorau,

J. Durbridge

James Durbridge
Pennaeth

Ysgol Dyffryn Aman

Pennaeth/Headteacher
Mr James Durbridge

Ysgol Dyffryn Aman
Stryd Marged/Margaret Street
Rhydaman/Ammanford
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire
SA18 2NW
Tel: (01269) 592441
ebost/email: admin@dyffrynaman.org

Friday 27th September 2024

Dear Parents and Guardians,

I hope this letter finds you well.

Most of you will be aware of the upcoming trial in connection to the incident that took place at the school in April of this year.

The trial is scheduled to commence on Monday, 30 September 2024 and, whilst I cannot comment on the details of the trial, I wish to reassure you that it is very much business as usual for pupils and staff at Ysgol Dyffryn Aman next week. Classes will go ahead as normal and there will be no disruption to the day-to-day running of the school during the trial, which may last around a fortnight.

The trial will likely attract media attention and there may be media presence outside the school. Please be assured that this will be managed by the school and the Local Authority.

I must make you aware that the evidence brought forward during the trial will very likely be made available to the media. I have had reassurances from the Police and Crown Prosecution Service that the identity of all pupils will be protected, however, I have no doubt that publishing the evidence and it being shared in the public domain will be upsetting to many of us.

With this in mind, I would reiterate the wellbeing support available through the school to any pupil who requires our help. Pupils wishing to receive wellbeing support can contact their form teacher or a member of the pastoral team. School counselling services will also be available should pupils require. In addition to this, I've included links, previously shared that you may find useful to support pupils at home.

Ysgol Dyffryn Aman

Pennaeth/Headteacher
Mr James Durbridge

Ysgol Dyffryn Aman
Stryd Marged/Margaret Street
Rhydaman/Ammanford
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire
SA18 2NW

Tel: (01269) 592441
ebost/email: admin@dyffrynaman.org

A guide to understanding and managing trauma

A guide to managing anxiety in uncertain and challenging times

It is also very important that I advise everyone that legal proceedings are active, in respect of the incident and trial, and to ask everyone not to speculate, comment, or share any images or videos relating to the incident. Doing so could result in individuals being in contempt of court.

Five months have passed since our school community was shaken by this event, however, everyone within 'TeuluYDA' has shown incredible maturity and kindness in supporting each other.

I will provide you with an update at the end of the trial but in the meantime, I would like to thank you for your continued support.

Kind regards,

James Durbridge
Headteacher